



Datganiad i'r Wasg

Ymgyrch sy'n parhau am fis i godi ymwybyddiaeth o sgrinio

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn lansio ei bumed ymgyrch 'Sgrinio am Oes' flynyddol ar 1 Gorffennaf i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglenni sgrinio cenedlaethol am ddim a gynigir gan y GIG.

Mae'r ymgyrch sy'n parhau am fis wedi'i hanelu at annog dynion, menywod a phlant cymwys ledled Cymru i fanteisio ar sgrinio am ddim gan y GIG.

Drwy gydol y mis, bydd Tîm Ymgysylltu â Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda phractisau meddygon teulu ledled Cymru, gan hyfforddi aelodau o staff fel "hyrwyddwyr sgrinio" i siarad â chleifion am sgrinio.

Bydd pob un o'r rhaglenni sydd wedi'i hanelu at oedolion yn targedu grwpiau penodol yn ystod y mis:

- Bydd Bron Brawf Cymru yn annog menywod sy'n cael eu gwahodd i gael eu sgrinio am y tro cyntaf i fanteisio ar eu gwahoddiadau sgrinio
- Mae Sgrinio Coluddion Cymru yn gofyn i ddynion, sy'n dueddol o ymwneud â'r rhaglen yn llai na menywod, i ystyried dychwelyd eu pecyn prawf
- Bydd Rhaglen Sgrinio Ymlediaid Aortig Abdomenol Cymru yn targedu dynion sy'n gymwys i gael eu sgrinio sy'n dal i weithio a'u hannog i gymryd amser i fynd i'w hapwyntiad

Author: Anna Ashman	Date: 13 June 2017
Version number: 0a	Page number: 1

- Yn yr un modd, bydd Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru – y rhaglen ddiweddaraf i ymuno ag Iechyd Cyhoeddus Cymru – yn annog pobl sy'n gymwys i gael eu sgrinio sydd yn y gwaith i sicrhau eu bod yn mynd i'w hapwyntiad
- Bydd Sgrinio Serfigol Cymru yn galw ar fenywod iau sydd wedi bod i gael prawf ceg y groth i siarad â'u perthnasau neu ffrindiau hŷn am bwysigrwydd mynd i'r apwyntiad

Mae sawl ffordd y gallwch gymryd rhan yn yr ymgyrch. Mae pecyn adnoddau am ddim Sgrinio am Oes ar gael ar y wefan a fydd yn rhoi syniadau a gwybodaeth ddefnyddiol i chi er mwyn eich helpu i gynnal digwyddiadau a gweithgareddau sgrinio. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: <http://www.screening.wales.nhs.uk/>.

Mae adnodd sgrinio 'cerdyn z' bellach ar gael. Mae'r adnodd maint poced yn cynnwys gwybodaeth gyfeirio am yr holl raglenni sgrinio cenedlaethol. Mae'r adnodd yn ddelfrydol fel canllaw cyfeirio cyflym i weithwyr proffesiynol, ac i'w ddosbarthu i bobl sy'n dymuno dysgu rhagor am y gwasanaethau sydd ar gael.

Dywedodd Dr Sharon Hillier, Cyfarwyddwr Dros Dro Sgrinio ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru: "Dyma bumed flwyddyn Sgrinio am Oes, sydd wedi'i gynnal yn llwyddiannus iawn ers 2013 a buom yn siarad â miloedd o bobl am sgrinio.

"Gyda phedair rhaglen sgrinio i oedolion, un yn sgrinio oedolion a phlant, a thair rhaglen sgrinio i famau a phlant yn cael eu cynnal yng Nghymru, gall fod yn ddryslyd gwybod pa raglenni rydych yn gymwys amdanynt, a sut i gymryd rhan, ac edrychwn ymlaen at ateb unrhyw gwestiynau sydd gan bobl.

"Rydym yn gwybod bod rhai pobl yn anwybyddu eu gwahoddiad i sgrinio. Mae sgrinio wir yn gallu achub eich bywyd, a byddem yn annog pawb a wahoddwyd i edrych yn fanwl ar y wybodaeth rydym yn ei hanfon atynt ac ystyried dod i gael eu sgrinio."

Bydd yr ymgyrch yn cael ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys ar Facebook lle bydd sgwrs fyw â Dr Sikha De Souza, ymgyngorydd sgrinio, a fydd yn ateb cwestiynau am sgrinio yn fyw ar-lein ddydd Llun 31 Gorffennaf.

Author: Anna Ashman	Date: 13 June 2017
Version number: 0a	Page number: 2

I ddilyn yr ymgyrch gallwch 'Hoffi' tudalen facebook Sgrinio am Oes yn www.facebook.com/screeningforlife neu dilynwch @IechydCyhoeddus ar Twitter.

Gallwch drydar am yr ymgyrch drwy ddefnyddio #S4L2017

I gael rhagor o wybodaeth am yr holl raglenni sgrinio ewch i

<http://www.screeningforlife.wales.nhs.uk/>

Dolenni

Canlyniad iechyd cyhoeddus

Gwella ansawdd, cydraddoldeb ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd

Blaenoriaeth strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru

Diogelu'r cyhoedd a gwella'n barhaus ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau rydym ni'n eu darparu

Timau

Bron Brawf Cymru, Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru, Sgrinio Serfigol Cymru, Sgrinio Coluddion Cymru, Sgrinio Cyn Geni Cymru, Sgrinio Clyw Babanod Cymru, Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru, Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru

Adnoddau ar-lein

Gwefan: <http://www.screeningforlife.wales.nhs.uk/>

Facebook: www.facebook.com/screeningforlife

Twitter: <https://twitter.com/IechydCyhoeddus>

Dogfennau

Negeseuon allweddol Bron Brawf Cymru

Author: Anna Ashman	Date: 13 June 2017
Version number: 0a	Page number: 3

Negeseuon allweddol Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru

Negeseuon allweddol Sgrinio Serfigol Cymru

Negeseuon allweddol Sgrinio Coluddion Cymru

Pynciau

Canser, Llythrennedd Iechyd

Cyswllt

screening.feedback@wales.nhs.uk